Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-06-12 : 12 Mawrth 2012**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

**CLA101 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 22 Chwefror 2012.
**Fe'u gosodwyd ar:** 27 Chwefror 2012.
**Yn dod i rym ar:** 28 Chwefror 2012

**CLA103 - Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed:** 23 Chwefror 2012.
**Fe'i gosodwyd:** 28 Chwefror 2012.
**Yn dod i rym ar:** 21 Mawrth 2012

**CLA104 - Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Menai (Diddymu) 2012 (Saesneg yn Unig)**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed:** 29 Chwefror 2012.
**Fe'i gosodwyd:** 2 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 1 Ebrill 2012

**CLA107 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol)(Diwygio)(Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 4 Mawrth 2012.
**Fe'u gosodwyd ar:** 6 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 1 Ebrill 2012

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**
**CLA103 - Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012**

**Gweithdrefn**: Cadarnhaol.
**Fe'i gwnaed ar**: heb ei nodi.
**Fe'i gosodwyd ar**: heb ei nodi.
**Yn dod i rym ar**: 21 Mawrth 2012

**CLA108 – Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012**
**Gweithdrefn**: Cadarnhaol.
**Fe'i gwnaed**: heb ei nodi.
**Fe'i gosodwyd**: heb ei nodi.
**Yn dod i rym ar**: 1 Ebrill 2012

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan reol Sefydlog 21.2 na 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

**CLA105 – Gorchymyn Deddf Gwella'r Fenni 1854 (Diddymu) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed ar:** 28 Chwefror 2012.
**Fe'i gosodwyd ar:** 2 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 26 Mawrth 2012

**CLA106 – Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 28 Chwefror 2012.
**Fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar:** 5 Mawrth 2012
**Fe'u gosodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar:** 5 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 6 Ebrill 2012

**CLA109 – Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 4 Mawrth 2012.
**Fe'u gosodwyd ar:** 6 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 31 Mawrth 2012

**CLA110 – Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed ar:** 6 Mawrth 2012.
**Fe'i gosodwyd ar:** 6 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 27 Mawrth 2012

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

**Dim**

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiadau hyn o dan Reol Sefydlog 21.2 a Rheol Sefydlog 21.3 ar yr offerynnau statudol hyn, sydd wedi'u hatodi fel Atodiadau 1 - 4.

**Busnes Arall**

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gaffael Cyhoeddus**

Nododd y Pwyllgor ymateb Cadeirydd Pwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin ( (Mr William Cash AS), dyddiedig 29 Chwefror 2012 i lythyr y Cadeirydd, dyddiedig 23 Chwefror 2012 yn mynegi pryderon y Pwyllgor ynghylch yr agwedd sybsidiaredd ar y corff goruchwylio cenedlaethol (Erthygl 84.1 o'r Gyfarwyddeb ddrafft). Nododd y Pwyllgor hefyd fod y Pwyllgor wedi cynnal trafodaeth ar 29 Chwefror 2012 ynghylch cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr UE ac ystyriaethau sybsidiaredd, gan gynnwys y llythyr a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chytunodd ar farn resymegol ddrafft sy'n dyfynnu'n uniongyrchol o'r cyflwyniad hwnnw ac yn ei gynnwys yn llawn fel atodiad. Nodwyd hefyd fod y farn resymegol wedi cael ei chymeradwyo wedyn gan Dŷ'r Cyffredin yn dilyn dadl ar 6 Mawrth, a'i chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, a gyflwynwyd gan Kay Powell, Cyfreithiwr a Chynghorydd Polisi'r Gymdeithas; Michael Imperato o Gyfreithwyr NewLaw a Richard Owen, Dirprwy Bennaeth Ysgol y Gyfraith, Cyfrifeg a Chyllid, Prifysgol Morgannwg, ac mae'r ddau ohonynt hefyd yn aelodau o Bwyllgor Cymru y Gymdeithas. Cytunodd Cymdeithas y Cyfreithwyr i ddarparu ystadegau ychwanegol o drosglwyddiadau rhwng awdurdodaethau o dan y Cynllun Trosglwyddo Cyfreithwyr Cymwysedig.

**Penderfyniad i Gwrdd yn Breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn yn yr ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**12 Mawrth 2012**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**CLA(4)-06-12**

**CLA105**

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Gorchymyn Deddf Gwella'r Fenni 1854 (Diddymu) 2012**

**Gweithdrefn:** N**egyddol**

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed o dan adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn diddymu adran 28 o Ddeddf Gwella'r Fenni 1954 (gan gynnwys i'r graddau y mae adran 26 o'r Ddeddf honno'n cael effaith mewn perthynas ag adran 28) oherwydd nad yw'r adran honno'n berthnasol nac yn angenrheidiol bellach ac fe'i disodlwyd i raddau helaeth gan Ddeddf Bwyd 1984.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn/offeryn drafft hwn.

**Rhinweddau: craffu**

O dan Reol Sefydlog 2.13(ii) (ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad), gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

Rhoddodd adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 y pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiddymu Deddfau lleol (neu ddarpariaethau penodol ohonynt) lle yr ymddangosir eu bod yn ddarfodedig, yn amherthnasol neu'n ddianghenraid neu eu bod wedi'u disodli i raddau helaeth [gan ddeddfwriaeth arall sy'n ymdrin â'r un pwnc].
Trosglwyddwyd y pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy'r Gorchymyn, *the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999* (Saesneg yn unig), a bellach fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru. Dyma'r tro cyntaf i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio, cyn belled ag y gellir cadarnhau hynny, ers trosglwyddo'r pŵer ym 1999 a'i drosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru. Yn sgîl hynny, gwahoddir y Cynulliad i roi ystyriaeth arbennig i'r Gorchymyn hwn o dan Reol Sefydlog 21(3)(ii).

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**12 Mawrth 2012**

**Atodiad 2**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-06-12)**

**CLA106**

**Teitl: The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) Regulations 2012 (Saesneg yn unig)**

Mae'r offeryn yn diwygio'r Rheoliadau, *the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010* ("Rheoliadau 2010"). Mae'r diwygiadau yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- lleihau gofynion rheoliadol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gweithfeydd treulio anaerobig penodol neu offer symudol ac ar gyfer y rhai sy'n llosgi tanwydd sy'n deillio o wastraff nad yw bellach yn wastraff;
- ei gwneud yn haws i drosglwyddo trwyddedau mewn sefyllfaoedd penodol;
- darparu ar gyfer ymddiried trwydded amgylcheddol mewn cynrychiolydd personol gweithredwr a fu farw;
- gwneud newidiadau cymharol fach i weithrediadau gwastraff penodol sydd wedi'u heithrio;
- gwneud mân newidiadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sylweddau ymbelydrol;
- gwneud mân newidiadau i'r Rheoliadau, *the Environmental Damage (Prevention and Remediation) Regulations 2009* (Saesneg yn unig), a'r Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009 i egluro safbwynt gorfodi Asiantaeth yr Amgylchedd; a
- gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2010 ac i ddeddfwriaeth arall.

**Gweithdrefn**: **Negyddol**

**Materion technegol: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.2, bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Ni chafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud yn ddwyieithog, heblaw am Reoliad 19, sy'n gwneud mân newidiadau yn y ddwy iaith i Reoliadau Cymru yn unig.

[21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg].

**Rhinweddau: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**12 Mawrth 2012**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012**

"Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn diwygio rhai o'r darpariaethau yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 O.S. 2010/675 er mwyn:

- lleihau'r gofynion rheoleiddiol i'r rheini sy'n gweithredu gosodiadau neu beiriannau symudol penodol ar gyfer treulio anaerobig ac i'r rheini sy'n llosgi tanwydd sy'n dod o wastraff sydd wedi peidio â bod yn wastraff;
- ei gwneud yn haws i drosglwyddo trwyddedau mewn sefyllfaoedd penodol;
- darparu ar gyfer breinio trwydded amgylcheddol yng nghynrychiolydd personol gweithredydd ymadawedig;
- gwneud mân newidiadau i weithrediadau gwastraff penodol;
- gwneud mân ddiwygiadau sy'n ymwneud â gweithgareddau sylweddau ymbelydrol;
- gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) 2009 a Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) i wneud sefyllfa orfodi Asiantaeth yr Amgylchedd yn eglur; a
- gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2010 ac i ddeddfiadau eraill

Mae'r drefn Drwyddedu Amgylcheddol yn symleiddio rhannau gweithdrefnol clwstwr o ddeddfwriaeth dechnegol iawn a chymhleth iawn. Mae wedi galluogi symleiddio'r system drwyddedu y gweithredir ynddi ac y mae diwydiant a rheoleiddwyr yn ei harfer, heb gyfaddawdu safonau amgylcheddol neu iechyd dynol mewn unrhyw fodd. Mae hyn wedi symleiddio'r cymhlethdod yr oedd diwydiant a rheoleiddwyr yng Nghymru a Lloegr yn ei wynebu o'r blaen ac yr oedd taer angen amdano.
Mae sicrhau'r newidiadau hyn drwy offerynnau cyfansawdd sy'n cael eu gwneud ynghyd â'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyson â'r nod o symleiddio y cyfeirir ato uchod. Mae'r offeryn cyfansawdd hefyd yn lleiafu'r anghyfleustra ar dryswch posibl i'r rheini y mae'r Rheoliadau'n effeithio arnynt, yn arbennig gan fod Asiantaeth yr Amgylchedd (sy'n rheoleiddiwr) yn gorff trawsffiniol.

Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan Senedd y Deyrnas Unedig. Yn unol â hynny, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei osod ar ffurf ddrafft, na'i wneud, yn ddwyieithog."

**Atodiad 3**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-06-12)**

**CLA109**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012**

**Gweithdrefn: Gadarnhaol**

Mae adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol), yn unol â rheoliadau, i gynnal arolwg ar ôl pob etholiad cyffredin i gyngor y sir neu fwrdeistref sirol ac i bob cyngor cymuned (a gynhelir fel rheol ar yr un pryd bob pedair blynedd) yn ardal yr awdurdod lleol.

Rhaid i awdurdod lleol gynnal yr arolwg drwy ofyn cwestiynau rhagnodedig i gynghorwyr ac i ymgeiswyr aflwyddiannus sydd wedi ymgeisio am gael eu hethol yn gynghorwyr yn ardal yr awdurdod lleol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r cwestiynau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu gofyn wrth gynnal arolwg etholiad lleol. Mae'r cwestiynau rhagnodedig a'r ffurf y caniateir eu gofyn ynddi wedi eu dangos yn yr Atodlen i'r Rheoliadau.

**Craffu technegol**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Craffu ar rinweddau**

Nodwyd y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn -

Mae llawer o'r wybodaeth sydd i'w gasglu gan yr arolwg hwn yn ddata sensitif personol o fewn yr ystyr a roddir i'r term hwnnw gan adran 2 o Ddeddf Diogelu Data 1998. Er bod y Mesur yn darparu ar gyfer bod yn anhysbys, gall y nifer fechan o ymgeiswyr ar gyfer rhai awdurdodau ei gwneud yn gymharol rwydd i adnabod y rhai sydd â chyfuniad penodol o nodweddion (oedran, rhywedd, crefydd ayb). Mae ffurf yr holiadur felly'n cynnwys troednodyn sy'n tynnu sylw at y ddarpariaeth yn adran 1 o'r Mesur nad oes dyletswydd i gwblhau'r arolwg.

**[Rh.S. 21.3(ii)** ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad]

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**12 Mawrth 2012**

**Atodiad 4**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-06-12)**

**CLA110**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Teitl: Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cynnal yn 2013 yn lle 2012. Mae hefyd yn darparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr i'r cynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn yn cael eu cynnal yn 2013 yn lle 2012.

Yn unol â hynny, mae cyfnod swydd cyfredol cynghorwyr presennol a etholwyd i Gyngor Sir Ynys Môn wedi ei estyn gan un flwyddyn. Mae cyfnod swydd cyfredol cynghorwyr cymuned presennol a etholwyd i gynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn hefyd wedi ei estyn felly gan un flwyddyn.

**Craffu technegol**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Craffu ar rinweddau**

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn -

1. Effaith y Gorchymyn hwn yw gohirio am flwyddyn yr etholiadau yn Ynys Môn. Er hynny, mae'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r gallu i wneud y Gorchymyn hwn yn pennu mai'r weithdrefn negyddol sy'n gymwys.

2. Caiff y Gorchymyn hefyd yr effaith o roi Ynys Môn ar gylch etholiadol gwahanol i weddill siroedd Cymru. Tynnir sylw'n arbennig felly at baragraff terfynol rhan 4 o'r Memorandwm Esboniadol.

**[Rh.S. 21.3(ii)** ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad]

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**12 Mawrth 2012**